

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

### **Diolch am bob cydweithrediad wrth i ni barhau i ymateb i her y Coronafeirws.**

Mae hi'n braf iawn gweld pawb yn ôl yn yr ysgol. Gobeithiwn fod eich plentyn yn mwynhau bod nôl yng nghwmni eu ffrindiau a'u hathrawon. Os ydych yn teimlo fod eich plentyn yn poeni am unrhyw agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol yna cysylltwch â mi ar unwaith.

**Trefniadau Clwb Brecwast** – Mae'r Clwb Brecwast yn weithredol ac yn darparu gofal plant rhwng 8.15 a 8.30. Mi fydd iogwrt a sudd ffrwythau ar gael yn ystod y cyfnod hwn. Gwerthfawrogi os oes modd i chi e-bostio'r ysgol ar [R.Lewis6@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk](mailto:R.Lewis6@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk) er mwyn cadarnhau lle.

**Gŵyl Calan Mai** – mi fydd yr ysgol ar gau ar ddydd Llun, Mai 3ydd.

**Gwyliau'r Sulgwyn a diwrnod HMS** – Mi fydd yr ysgol yn cau ar ddydd Iau, Mai 27ain ar gyfer gwyliau'r Sulgwyn (sy'n cynnwys diwrnod HMS ar ddydd Gwener, Mai 28ain) Mi fydd yr ysgol yn ail agor ar ddydd Llun, Mehefin 7fed.

**Symptomau** - dylai unrhyw un sydd â symptomau Covid-19 aros gartref ar unwaith, archebu prawf a hysbysu'r ysgol. Mae angen i'r aelwyd gyfan hunan ynysu nes bod canlyniad y prawf yn hysbys.


Mae'r symptomau'n cynnwys tymheredd uchel, peswch parhaus newydd a cholled neu newid i ymdeimlad o arogl neu flas. Gall fod symptomau eraill yn gynnar, fel cur pen, blinder ac gwinegon cyffredinol a phoenau sy'n gysylltiedig â'r fflui fel arfer.

**Cwricwlwm Newydd** – mae Cymru yn paratoui ar gyfer gweithredu cwricwlwm newydd ac rydym fel ysgol yn gwerthuso ein cwricwlwm presennol ac yn cynllunio profiadau diddorol a chyfoethog ar gyfer y dyfodol. Mae'r cwricwlwm newydd yn pwysleisio pedwar diben;

## **Dibenion y cwricwlwm *Purposes of the curriculum***

Dibenion y cwricwlwm yng Nghymru yw ceisio sicrhau bod plant a phobl ifanc yn datblygu i fod:

*The purposes of the curriculum in Wales should be that children and young people develop as:*



## **Strwythur y cwricwlwm**

Chwe Maes Dysgu a Phrofiad: -

- ✓ Y Celfyddydau Mynegiannol
- ✓ Iechyd a lles
- ✓ Dyniaethau
- ✓ Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu
- ✓ Mathemateg a rhifedd
- ✓ Gwyddoniaeth a thechnoleg

Tri chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd: -

- ✓ Cymhwysedd digidol
- ✓ Llythrennedd
- ✓ Rhifedd

## ***Curriculum structure***

*Six Areas of Learning and Experience: -*

- ✓ *Expressive Arts*
- ✓ *Health and well-being*
- ✓ *Humanities*
- ✓ *Languages, literacy and communication*
- ✓ *Mathematics and numeracy*
- ✓ *Science and technology*

*Three cross-curriculum responsibilities: -*

- ✓ *Digital competence*
- ✓ *Literacy*
- ✓ *Numeracy*

Rydym eisiau eich cymorth i ail ddiffinio gweledigaeth cwricwlwm ein hysgol – Mae nodau presennol ein hysgol yn pwysleisio tri pheth pwysig sef;

- Cymreictod,
- Parchu ein gilydd
- Gwneud ein gorau glas

Os ydych yn teimlo'n greadigol yna hoffwn i chi ddanfôn rhai syniadau ataf o safbwynt beth fyddai rhai o'r agweddau y byddech yn hoffi eu cynnwys mewn cwricwlwm delfrydol – cwricwlwm fyddai'n addas i'ch plentyn / plant. Mi fydd hyn yn bwydo ein proses o greu diffiniad ar gyfer gweledigaeth i gwricwlwm newydd yr ysgol.

E-bostiwch unrhyw gynigion at [prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk](mailto:prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk) cyn ddydd Gwener os gwelwch yn dda.

**Os oes gennych unrhyw bryderon yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

**R C Williams, Pennaeth**

**19/04/2021**

[prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk](mailto:prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk)

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

**Thank you for all your cooperation as we continue to respond to the challenge of Coronavirus.**

*It's been lovely to see everyone back at school. We hope your child enjoys being back in the company of their friends and their teachers. If you feel that your child is worried about any aspect of school life then please contact me immediately.*

**Breakfast Club Arrangements** - The Breakfast Club is open again and provides childcare between 8.15 and 8.30. Yoghurt and fruit juice will be available during this time. It is appreciated if you can email the school at [R.Lewis6@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk](mailto:R.Lewis6@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk) to confirm a place.

**May Day** - the school will be closed on Monday, May 3rd.


**Whitsun Holidays and INSET day** - The school will close on Thursday, May 27th for the Whitsun holidays (which includes INSET day on Friday, May 28th) The school will re-open on Monday, June 7th.

**Symptoms** - anyone with Covid-19 symptoms should stay home immediately, order a test and inform the school. The whole household needs to be isolated until the test result is known. Symptoms include high temperature, a new persistent cough and loss or a change in sense of smell or taste. Other early symptoms may include headaches, general tiredness and vomiting and usually flu-related pains.

**The New Curriculum** - Wales is preparing for the implementation of a new curriculum and as a school we are evaluating our current curriculum and planning interesting and enriching experiences for the future. The new curriculum emphasises four purposes;

## **Dibenion y cwricwlwm Purposes of the curriculum**

Dibenion y cwricwlwm yng Nghymru yw ceisio sicrhau bod plant a phobl ifanc yn datblygu i fod:



*The purposes of the curriculum in Wales should be that children and young people develop as:*



## **Strwythur y cwricwlwm**

Chwe Maes Dysgu a Phrofiad: -

- ✓ Y Celfyddydau Mynegiannol
- ✓ Iechyd a lles
- ✓ Dyniaethau
- ✓ Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu
- ✓ Mathemateg a rhifedd
- ✓ Gwyddoniaeth a thechnoleg

Tri chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd: -

- ✓ Cymhwysedd digidol
- ✓ Llythrennedd
- ✓ Rhifedd

## **Curriculum structure**

*Six Areas of Learning and Experience: -*

- ✓ *Expressive Arts*
- ✓ *Health and well-being*
- ✓ *Humanities*
- ✓ *Languages, literacy and communication*
- ✓ *Mathematics and numeracy*
- ✓ *Science and technology*

*Three cross-curriculum responsibilities: -*

- ✓ *Digital competence*
- ✓ *Literacy*
- ✓ *Numeracy*

*We want your help in redefining the vision of our school curriculum - Our school's current aims emphasise three important things:*

- *Appreciation of the Welsh language and culture*
- *Respecting each other*
- *Doing our very best*

*If you are feeling creative then I would like you to send me some ideas regarding what would be some of the aspects you would like to include in an ideal curriculum - a curriculum that would suit your child / children. This will contribute to our process of creating a vision for the new school curriculum.*

*Please e-mail your ideas to [prif@ysgolqymraeg.ceredigion.sch.uk](mailto:prif@ysgolqymraeg.ceredigion.sch.uk) before Friday.*

***If you have any concerns regarding your child's education then please contact me immediately.***

***R C Williams, Headteacher***

***19/04/2021***

[prif@ysgolqymraeg.ceredigion.sch.uk](mailto:prif@ysgolqymraeg.ceredigion.sch.uk)